# Cyngor Cymuned Mawddwy

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
☏ **01650 531 405**
**E bost: *Cyngormawddwy@outlook.com***

30ain Mehefin 2025

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED MAWDDWY** ***Nos Fercher y 9fed o Orffennaf am 8.00pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.***

**Nodyn ar gyfer y cyhoedd.** Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

…………………………………………………………………………………………

AGENDA

1.Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar y 14eg o Fai 2025 – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) Materion Llwybrau, Priffyrdd a Chefnffyrdd.

b) Dyfodol Eglwys Llanymawddwy -derbyn y diweddaraf.

c) Pwyllgor yr Hen Fynwent – derbyn y diweddaraf.

d) Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas – derbyn y diweddaraf.

e) Torri gwair mynwentydd – ystyried y sefyllfa ddiweddaraf.

f) Safle y gofgolofn yn Minllyn – nodi y gohebiaeth i law.

g) Amddiffyn gwasanaethau Bronglais ac Ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

**5. Materion Cynllunio**

**NP5/74/323C - Hysbysiad o flaen llaw ar gyfer uwchraddio offer ar ddatblygiadau telethrebu presennol - Ty'n y Pwll, Dinas Mawddwy**

*(hwn wedi ei ddanfon atoch eisoes yn gwahodd sylwadau, a'r Cyngor yn gefnogol)*

**NP5/74/LUL182A – Tystysgrif defnydd cyfreithiol (presennol) i ddefnyddio'r eiddo fel llety gwyliau tymor byr (Dosbarth Defnydd C6) – yn Bryn Cleifion Lodge, Mallwyd**

*(hwn wedi ei ddanfon atoch eisoes yn gwahodd sylwadau, ac ni chafwyd ffeithiau i law i gynorthwyo)*

**Ymgynghoriad Trwyddedu – Red Bull Hardline**

*(hwn wedi ei ddanfon atoch eisoes yn gwahodd sylwadau, a'r Cyngor yn gefnogol)*

6.**Materion Cyllid.**

a) Cyfrifon 2024-25 – nodi'r hysbyseb gyhoeddus yn ol yr arfer.

b) Anfonebau i'w talu

- A Johnson – torri gwair mynwentydd
- Cydnabyddiaeth chwarter cyntaf y Clerc a HMRC
- Anfoneb Archwilio Cymru am 2023/24

c) Ceisiadau am arian.

- Ambiwlans Awyr Cymru
- Papur Bro y Blewyn Glas

**7.Gohebiaeth**

a) Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru. Hefyd nodi cyfarfod Un Llais Cymru Meirionnydd 16.07.25 - 7pm Penrhyndeudraeth.

b) Cynllun 'Gwynedd Ni' – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - ystyried y diweddaraf yn dilyn cyfarfod arbennig ar yr 19eg o Fehefin, a'r syniadau/amcangyfrifon i law.

c) Mynwent Eglwys Llanymawddwy – gohebiaeth i law.

d) Mynwent Eglwys Mallwyd – gohebiaeth i law

e) Problemau beiciau modur – Dinas Mawddwy

8. **Unrhyw fater arall**